



Cyflawni drwy
Brofiad Gwaith
Achieve through
Work Experience



ASTUDIAETH ACHOS

Myfyriwr Gwyddorau Meddygol

Cyflogwr Lletyol: Adran Wroleg - Ysbyty Gwynedd

Beth yw GO Wales?

Mae project 'GO Wales', sydd wedi ei leoli ym Mhrifysgol Bangor, yn helpu myfyrwyr i ddatblygu eu sgiliau cyflogadwyedd a chynyddu eu cyfle o gael swydd addas i raddedigion ar ôl gadael y brifysgol.

Ynglŷn â'r myfyriwr

Roedd y myfyriwr yn astudio cwrs meistr mewn Gwyddorau Meddygol a chysylltodd â **GO Wales** am gefnogaeth. Roedd yn ei chael hi'n anodd trefnu'r profiad gwaith yr oedd ei angen i allu gwneud cais am ysgol feddygol.

Disgrifiwch yr hyn wnaeth eich cymell i gymryd rhan ym Mhroject GO Wales?

Roeddwn i'n cael anhawster mawr yn dod o hyd i unrhyw brofiad gwaith perthnasol yn fy maes.

Beth oeddech chi'n ei feddwl o'r gefnogaeth y gwnaethoch ei gael gan dîm GO Wales?

Roedd y gefnogaeth yn ardderchog. Roedd pob aelod o'r tîm yn groesawgar ac yn gyfeillgar, ac yn anad dim os oedd gen i unrhyw ymholiadau neu gwestiynau am y lleoliad profiad gwaith, byddent yn ymateb yn brydlon gyda chynghor defnyddiol.

Disgrifiwch y math o waith a wnaethoch yn ystod eich lleoliad.

Y math o leoliad gwaith a gefais oedd dilyn ymgynghorwyr wrth eu gwaith o gwmpas yr ysbyty lleol.

Pa mor berthnasol yw'r math hwn o brofiad gwaith i'r llwybr gyrfa rydych chi'n gobeithio ei ddilyn?

Yn gwbl berthnasol. O ran fy llwybr gyrfa mae'n orfodol cael cryn dipyn o brofiad gwaith o fewn y GIG, yn benodol ym maes meddygaeth.

Sut fydddech chi'n disgrifio'r profiad o weithio yn y rôl hon?

Amhrisiadwy, roedd y profiad a gefais yn dilyn ymgynghorwyr wrth eu gwaith yn unigryw.

Fedrwch chi ddisgrifio unrhyw sgiliau newydd yr ydych wedi eu dysgu nad oeddech chi'n eu disgwyl?

Hyder newydd i ymgeisio am nifer fawr o swyddi newydd yn ogystal ag aml-dasgio a chyfathrebu â gweithwyr proffesiynol a chleifion.

Beth oedd uchafbwyntiau gweithio yn y lleoliad hwn?

Fe wnes i fwynhau fy lleoliad yn fawr, ac un uchafbwynt oedd iddo roi sylfaen cryfach yn academiaidd i'm llwybr gyrfa dewisol; atgyfnerthodd y profiad uniongyrchol fy syniadau ynglŷn â sut beth fyddai gweithio mewn lleoliad meddygol, ac mae wedi rhoi mwy o gymhelliad i mi ymdrechu tuag at y nod hwnnw.

Pa gyngor fydddech chi'n ei roi i fyfyrwyr sy'n ystyried gwneud cais i GO Wales?

Fel myfyriwr rwy'n argymhell mai'r peth gorau y gallwch ei wneud yw gwneud cais i GO Wales cyn gorffen yn y brifysgol, gan fod lleoliadau profiad gwaith yn hanfodol ar gyfer cymryd y cam nesaf naill ai i'r gweithle neu i gwrs prifysgol arall. Roedd cael trefnu profiad gwaith trwy gynllun GO Wales hefyd yn llawer haws a mwy llwyddiannus na cheisio trefnu lleoliadau ar ben fy hun.

Oes yna unrhyw beth arall yr hoffech ei ychwanegu?

Diolch i GO Wales a'r tîm am fy helpu i gyflawni'r profiad gwaith perthnasol oedd ei angen arnaf. Rwyf bellach yn teimlo fy mod mewn sefyllfa well i wneud cais am y math o swyddi rwy'n eu dymuno.